


## PUGHE, WILLIAM OWEN (1759 - 1835), geiriadurwr, gramadegydd, golygydd, hynafiaethydd, a bardd



**Enw:** William Owen Pughe

**Dyddiad geni:** 1759

**Dyddiad marw:** 1835

**Priod:** Sarah Elizabeth Pughe (née Harper)

**Plentyn:** Aneurin Owen

**Rhiant:** Anne Owen

**Rhiant:** John Owen

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** geiriadurwr, gramadegydd, golygydd, hynafiaethydd, a bardd

**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Argraffu a Chyhoeddi; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** Griffith John Williams

Yr oedd yn fab i John Owen, Rhiwyerfa ger Abergynolwyn a'i wraig Anne Owen, a ganed ef yn Llanfihangel-y-Pennant yn Sir Feirionnydd, 7 Awst 1759. Symudodd y teulu yn fuan wedi hynny i ffermdy Egryn yn Arduwly. Myn iddo yn ei ieuencid glywed datgineaiaid Arduwly yn canu yn ei gartref, ac iddo weled cwmnïau yn chwarae anterliwtiau, ond yr hyn a gafodd fwyaf o ddylanwad arno ydoedd darllen *Gorchestion Beirdd Cymru*, a gyhoeddwyd yn 1773. Gyrrwyd ef i ysgol yn Altrincham, yn ymyl Manceinion. Yna yn 1776 aeth i Lundain, a chartrefodd yno am 30 mlynedd. Ni wyddom yn iawn beth oedd ei waith ar y dechrau, ond yr oedd yn 1802 yn dysgu rhifydddeg a sgrifennu mewn ysgol breswyl i ferched a gedwid gan ryw Mrs. Stevenson yn Queen's Square. Dengys ei lythrau hefyd y byddai'n gwasnaethu fel athro preifat i blant boneddigion. Yr oedd yn sgrifennu i gylchgronau Saesneg megis *The Gentleman's Magazine* a'r *Monthly Magazine*, a châl ei dalu gan **Owen Jones** ('Owain Myfyr') a chan gyhoeddwy am gyflawni amrywiol orchwyllion. Yr oedd hefyd yn rhyw gymaint o arlunydd (gweler Mysevin MS. 30 yn LL.G.C.). Bywyd cyfyng, y mae'n ddiau, yn enwedig tua 1804-6 wedi cau'r ysgol breswyl. Yn y cyfnod hwn câi fyw'n ddi-rent mewn ty a brynasai '**Owain Myfyr**,' a rhôl'r gwr hwnnw gyflog o £100 y flwyddyn iddo am hyrwyddo ei gynlluniau ef. Daeth tro ar fyd yn 1806 pan fu farw perthynas iddo, y Parch. Rice Pughe o Nantglyn, a gadael iddo stad yn Ninbych a Meirionnydd. Dyna pryd y dechreuodd arfer y cyfenw 'Pughe.' Wedi hynny, gwnaeth ei gartref ar ei stad yn ymyl Nantglyn, ond byddai'n bwrw cryn dipyn o'i amser yn Llundain, ac yn crwydro yma a thraw. Bu farw yn ardal ei enedigaeith yn sir Feirionnydd, 4 Mehefin 1835, a chladdwyd ef yn Nantglyn. Yr oedd ganddo dri o blant, a datblygodd un ohonynt, **Aneurin Owen**, yn ysgolhaig Cymraeg.

Dywaid ef ei hun iddo gyfarfod â '**Robin Ddu o Fôn**' yn Llundain yn 1782, a dyna ddechrau cyfnod newydd yn ei hanes. Daeth i gysylltiad ag '**Owain Myfyr**' ac aelodau eraill y Gwyneddigion, a derbyniwyd ef yn aelod yn 1783. Yn 1784 ef oedd yr ysgrifennydd, a bu'n llywydd yn 1789, yn 1804, ac yn 1820. Gellir tybied hefyd ei fod yn 1784 yn aelod o'r Cymmrodorion - o'r hyn lleiaf, câi ei wahodd i'r cyfarfodydd. Yn y cyfnod hwn dechreuodd ddarllen llawysgrifau'r **Morrisiaid**, a phenderfynodd fyned ati i lunio geiriadur Cymraeg-Saesneg. Prifiodd y gwaith yn anferth. Daeth y rhan gyntaf allan yn 1793, ac yn 1803 cyhoeddwyd y cyfan yn ddwy gyfrol fawr, a gynhwysai hefyd ramadeg Cymraeg. Ef a gynorthwyai '**Owain Myfyr**' i olygu *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* yn 1789, ac yn 1792 cyhoeddodd ganu **Llywarch Hen**, gyda chyfieithiad Saesneg. Bu'n golygu'r cylchgrawn Saesneg, *The Cambrian Register*, 1796 a 1799, ac ef oedd prif olygydd *The Myvyrian Archaeology of Wales*, 1801 a 1807, ac a drefnai'r cyfan bron ynglyn â pharatoi'r defnyddiau i'r wasg. Yn yr un cyfnod lluniodd ein geiriadur bywgraffyddol cyntaf, sef *The Cambrian Biography*, 1803. Ef oedd un o olygyddion cylchgrawn y Gwyneddigion a'r Cymreigyddion, sef *Y Greal*, 1805-7. Golygodd hefyd argraffiadau newydd o *Lyfr y Resolusion*, sef *Dyhewyd y Cristion*, 1802, ac o *Rhetoreg neu Rheitheg*, 1807, sef gwaith **Henri Perri**, *Eglvryn Phraethineb*. Cyfieithodd lyfrau eraill a bu'n cynorthwyo llawer o awduron Saesneg pan fyddent yn ymhel â phynciau Cymreig neu Geltaidd. Yr oedd hefyd yn ceisio cyfansoddi barddoniaeth. Yn 1819, cyhoeddodd gyfieithiad o waith Milton, *Coll Gwynfa*, ac yn 1822, gywydd mewn tri chaniad ar *Hu Gadarn*.

Enillodd enw iddo ei hun fel geiriadurwr a gramadegydd, ac edrychid arno fel y prif awdurdod ar yr iaith ac ar bopeth a oedd yn ymwneuthur â dysg Gymraeg. Yr oedd yn F.S.A., ac yn 1822 cafodd y radd D.C.L. gan Brifysgol Rhydychen. Dengys ei lythrau ei fod yn gohebu â rhai o brif lenorion y dydd yn Lloegr, a bod ysgolheigion yn gofyn am ei farn. Ond yn ail hanner y ganrif ddiwethaf, newidiodd pethau'n llwyr, ac edrychid arno gan **Syr John Rhys** a'i ddilynwyr fel cwac ymhongar. Y mae'r ddwy farn yn anghywir. Plentyn ei gyfnod ydoedd. Megis cynifer o'i gyfoeswyr, tybiai fod y Gymraeg yn perthyn yn agos i'r famiaith gyntefig, ac y gellid canfod ystyrion yr elfennau gwreiddiol wrth ei hastudio. Felly, bydd yn ystumio ystyrion geiriau yn ei eiriadur, ac yn llunio geiriau newydd ar egwyddor gwbl gyfeillornus. Newidiodd yr orgraff er mwyn dangos tarddiad geiriau yn unol â'r ddamcaniaeth hon. A dyma ddechrau dadl yr orgraff yn y ganrif ddiwethaf. Heblaw hyn, mynnai mai swydd gramadegydd ydoedd disgrifio iaith fel y dylai fod, a dyna a wnaeth yntau yn ei ramadeg. Cafodd hyn effaith andwyol ar ramadegwyr Cymraeg yn hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf, a dyna paham yr edrychais ysgolheigion diweddarach arno fel cwac. Ond ni wnaeth namyn cymhwyso syniadau'r cyfnod at yr iaith Gymraeg. Mewn gwirionedd, cyflawnodd gryn wasanaeth i ddysg Gymraeg wrth gyhoeddi ei eiriadur. Darllenasai'r hen lenyddiaeth yn weddol fanwl, a llwyddodd i egluro ystyrion llw o eiriau a oedd yn dywyll i bawb cyn hynny. A dyma'r geiriadur a oedd wrth benelin ysgolheigion Cymraeg y ganrif ddiwethaf. Heblaw hyn, rhaid cofio mai trwy ei sêl a'i ymroddiad ef y llwyddodd '**Owain Myfyr**' i gyhoeddi'r hen lenyddiaeth.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

### Ffynonellau

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852), 427-8

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870), 864-8

*Oxford Dictionary of National Biography*

T. Mordaf Pierce, *Dr. W. Owen Pughe* (Caernarfon 1914)

*Llawysgrifau Mysevin yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

gweler dan Rowland Jones, 1722-1774

## Darllen Pellach

Glenda Carr, *William Owen Pughe* (Caerdydd 1983)

Erthygl Wicipedia: William Owen Pughe

## Gweithiau

Archifau LIGC: NLW MS 13248iB: Dyddgoviant William Owen [-Pughe], 1811-1835

Archifau LIGC: NLW MS 13248iiB: Dyddgoviant William Owen [-Pughe], 1811-1835

Owen Jones, William Owen Pughe, *The Myvyrian Archaeology of Wales* (1801-1807), Cyfrol 1

Owen Jones, William Owen Pughe, *The Myvyrian Archaeology of Wales* (1801-1807), Cyfrol 2

Owen Jones, William Owen Pughe, *The Myvyrian Archaeology of Wales* (1801-1807), Cyfrol 3

William Owen Pughe, *A dictionary of the Welsh language: explained in English* (London 1803), Cyfrol 1

William Owen Pughe, *A dictionary of the Welsh language: explained in English* (London 1803), Cyfrol 2

Archifau LIGC: NLW MS 13249B I-II: 'Coll Gwynfa'

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 61534972

Wikidata: Q8016424

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Williams, G. J., (1953). PUGHE, WILLIAM OWEN (1759 - 1835), geiriadurwr, gramadegydd, golygydd, hynafiaethydd, a bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 4 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PUGH-OWE-1759>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION





Wladfa  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government